

Mae Gennym Hawliau

Os yw pethau weithiau'n anodd
A'r byd yn teimlo'n llwm
Hud eich gwen sydd wedi cilio
ysgwyddau bach yn drwm,
Mae yna rywrai
sy'n gwarchod ti a fi
i wneud yn siwr,
beth bynnag ddaw,
bod hawliau gyda ni!

CYTGAN

Mae gennym hawliau!
Mae gennym lais!
Yn erbyn tristwch
Yn erbyn trais.
I'n cadw'n hapus
Yn glud ac iach
Ymhob cwr o Gymru fach.

Hawl `da ni i fod yn ddiogel
Ein gwarchod rhag pob cam
Stormydd bywyd sydd yn rhuo
A smo ni'n deall pam.
Sdim isie poeni
Da'n gilydd, safwn ni
Pan wyt ti'n wan
Grym cariad fydd
Yn loches sãff i ti

CYTGAN

**Mae gennym hawliau!
Mae gennym lais!
Yn erbyn tristwch
Yn erbyn trais.
I'n cadw'n hapus
Yn glud ac iach
Ymhob cwr o Gymru fach.**

RAP

**Hawl bod yn iach
Yn iach a champus
Dewch i ddawnsio -
Dawnsio hapus!
Chwifio dwylo,
a symud pen ôl!
Camu `mlaen!
A chamu nôl!**

CYTGAN

**Mae gennym hawliau!
Mae gennym lais!
Yn erbyn tristwch
Yn erbyn trais.
I'n cadw'n hapus
Yn glud ac iach
Ymhob cwr o Gymru fach.**